

Nodiadau cyfarwyddiadol ar gyfer llenwi rhybudd yr apelydd

Mae taflen o'r enw *Rwyf am Apelio* sy'n rhoi gwybodaeth am wneud apêl yn, neu at, yr Uchel Lys neu lys sirol ar gael yn rhad ac am ddim o unrhyw lys sirol neu gan Glerc y Rhestrau Swyddfa Gyffredinol/Swyddfa Apeliadau yn y Llysoedd Barn Brenhinol, Strand, Llundain WC2A 2LL. Yn y daflen hon hefyd, ceir esboniad o ystyr rhai o'r termau a'r ymadroddion a ddefnyddir yn y canllawiau hyn.

Mae gwybodaeth ar gael ynghylch cyflwyno apêl i'r Llys Apêl gan Gofrestrfa'r Swyddfa Apeliadau Sifil, Ystafell E307, y Llysoedd Barn Brenhinol, Strand, Llundain WC2A 2LL

- Gall staff y llys eich helpu i lenwi rhybudd yr apelydd a dweud wrthyich beth yw'r drefn. Fodd bynnag, ni chânt roi cyngor cyfreithiol i chi, er enghraifft, a ddylech chi apelio neu a fydd eich apêl yn llwyddiannus.
- Os oes angen cyngor cyfreithiol arnoch ynghylch eich apêl, dylech gysylltu â thwrnai neu â Chanolfan Cyngor ar Bopeth ar unwaith.
- Os oes gennych gynrychiolydd cyfreithiol, dylai eich twrnai lenwi'r ffurflen hon ar eich rhan.

Pwysig – rhaid codi (ffeilio) eich apêl o fewn cyfnod penodol.

Cyfyngir ar yr amser sydd gennych i ffeilio eich rhybudd apelydd yn y llys apelio, felly rhaid i chi weithredu'n gyflym.

Bydd y daflen *Rwyf am Apelio* yn dweud wrthyich pa lys apelio sy'n briodol ar eich cyfer chi.

Rhaid i chi ffeilio eich rhybudd apelydd:-

- o fewn y cyfnod penodol a bennwyd gan y barnwr a wnaeth y gorchymyn yr ydych yn apelio yn ei erbyn; neu
- os na phennodd y barnwr hwnnw gyfnod penodol, cyn pen **14 diwrnod** yn dilyn y dyddiad pan wnaed y penderfyniad y dymunwch apelio yn ei erbyn.

Nodiadau cyffredinol ynghylch llenwi'r rhybudd

Cyhoeddir isod nodiadau i'ch helpu i lenwi'r ffurflen. Dylech ddarllen y nodiadau ar gyfer pob adran yn ofalus cyn dechrau llenwi'r adrannau eu hunain.

Defnyddiwch ddalen ar wahân os oes angen rhagor o le arnoch ar gyfer eich atebion, gan nodi'n glir at ba adran y cyfeiria'r wybodaeth. Nodwch rif yr hawliad neu'r achos ar y ddalen a sicrhau ei bod ynghlwm wrth y rhybudd.

Os nad yw'r holl ddogfennau neu wybodaeth angenrheidiol ar gyfer eich apêl yn eich meddiant, **peidiwch** a gadael i hynny beri i chi oedi cyn anfon neu drosglwyddo trwy eich llaw eich hun y ffurflen i'r llys apelio o fewn yr amser priodol. Llenwch gymaint o'r ffurflen ag y gellwch gan gyflwyno'r dogfennau hynny sydd yn eich meddiant. Bydd y nodiadau i Adran 11 yn esbonio mwy ynghylch yr hyn y dylech ei wneud dan amgylchiadau o'r fath.

Adran 1

Manylion yr hawliad neu'r achos

Nodwch enw'r llys neu'r tribiwnlys a wnaeth y gorchymyn yr apeliwch yn ei erbyn, rhif yr achos neu'r hawliad yn y llys neu'r tribiwnlys hwnnw, ac enwau llawn bob parti. Cewch gymryd y manylion hyn o'r gorchymyn neu'r penderfyniad yr apeliwch yn ei erbyn.

Nodwch, trwy dicio'r blwch priodol, ba barti oeddech chi yn yr achos hwnnw.

Adran 2

Eich enw a'ch cyfeiriad chi (yr apelydd)

Nodwch eich enw llawn a'r cyfeiriad lle dylid anfon pob dogfen sy'n ymwneud â'r apêl. Cofiwch gynnwys gwybodaeth ar gyfer cysylltu, e.e. rhif ffôn, ac unrhyw gyfeirnodau eraill.

Adran 3

Enw a chyfeiriad yr Atebydd

Nodwch enw llawn, cyfeiriad a manylion cyswllt yr atebydd. Bydd angen y wybodaeth hon ar y llys i allu anfon gohebiaeth a phapurau eraill at yr atebydd. Os oes twrnai gan yr atebydd, nodwch gyfeiriad a manylion cyswllt y twrnai.

Os oes mwy nag un atebydd, rhestrwch hwynt yn ôl eu henwau, eu cyfeiriadau a'u manylion cyswllt ar ddalen ar wahân. Nodwch rif yr hawliad arni a gwnewch yn siwr ei bod ynghlwm wrth y rhybudd.

Ticiwch y blwch priodol i roi gwybod i'r llys os oes manylion ar wahân ynghlwm.

Adran 4

Amcangyfrif o hyd gwrandawriad yr apêl

Nid oes raid i chi lenwi'r rhan hon os gwneir eich apêl i'r Llys Apêl yn Llundain.

Rhowch syniad bras o'r amser a gymerwch, yn eich tŷb chi, i gyflwyno eich achos ger bron y llys yng ngwrandawriad yr apêl. Mae angen y wybodaeth hon ar y llys er mwyn asesu faint o amser y barnwr y dylid ei neilltuo.

Manylion y gorchymyn y dymunwch apelio yn ei erbyn

Os ydych eisoed wedi apelio'n **aflwyddiannus** yn erbyn y gorchymyn mewn llys sirol neu yn yr Uchel Lys ac yn dymuno apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw (gwneud ail apêl) dylech roi manylion yr apêl gyntaf yn yr adran hon. Dylid cynnwys eich rhybudd apelydd yn apelio yn erbyn y gorchymyn gwreiddiol yn eich bwndel dogfennau (*gweler y nodiadau i adran 11*).

Os mai rhan yn unig o orchymyn neu benderfyniad tribiwnlys sy'n destun eich apêl, rhaid i chi nodi rhan honno (neu rannau hynny) y gorchymyn yn y blwch a ddarperir.

Dylech nodi teitl ac enw llawn y barnwr, e.e. 'Ei Anrhydedd y Barnwr Jones' neu 'Barnwr Rhanbarth Smith', a dyddiad y gorchymyn neu'r penderfyniad y gwneir apêl yn ei erbyn.

Os mai yn yr Uchel Lys neu mewn llys sirol y gwnaed y gorchymyn yr apeliwch yn ei erbyn, ac nad oedd yn gysylltiedig â mater teuluol, mae'n bosib ei fod wedi'i ddyrannu i'r trac cyflym neu i'r aml-drac at ddibenion paratoi'r dystiolaeth a'r treial. Os dyrannwyd yr achos i drac, dylech dicio'r blwch priodol i nodi pa un.

(Dylai'r wybodaeth honno fod yn y rhybudd dyrannu neu orchymyn arall.)

Dylech hefyd dicio'r blwch priodol os mai penderfyniad rheolaeth achos yw'r gorchymyn yr apeliwch yn ei erbyn. Mae penderfyniadau rheolaeth achos yn cynnwys gorchymynion sy'n ymwneud ag:

- amserlen y treial;
- ffeilio a chyfnewid gwybodaeth (tystion ac arbenigwyr);
- dadleniad dogfennau (papurau y mae'n rhaid i chi, yn ôl y llys, sicrhau eu bod ar gael i bartïon eraill); neu
- ychwanegu parti at hawliad.

Caniatâd i Apelio

Bydd angen caniatâd arnoch fel rheol i apelio yn erbyn penderfyniad barnwr o'r Uchel Lys neu lys sirol. Os mai apelio yn erbyn penderfyniad tribiwnlys a wnewch, dylech holi'r tribiwnlys hwnnw i weld a oes angen caniatâd i apelio arnoch ac, os oes, a oes angen i chi ofyn i'r tribiwnlys am y caniatâd hwnnw, neu i'r llys apelio.

Os ydych yn dymuno gwneud **ail apêl** yn erbyn yr un gorchymyn, gallwch wneud hynny dim ond os yw'r Llys Apêl yn Llundain yn rhoi caniatâd i chi. Mae'n rhaid i chi wneud cais am ganiatâd i'r llys hwnnw - dim ond dan amgylchiadau eithriadol y rhoddir caniatâd am ail apêl.

Sylwch mai dim ond pan dybia'r llys bod gan eich apêl gyfle realaidd o lwyddo y bydd yn rhoi caniatâd. Os mai apelio yn erbyn penderfyniad rheolaeth achos a wnewch, bydd y llys yn rhoi ystyriaeth hefyd i'r canlynol:-

- a yw'r mater yn ddigon sylweddol i gyfiawnhau costau apêl;
- yr effaith gyffredinol ar yr amserlen rheolaeth achos, e.e. a yw colli dyddiad y treial yn fwy arwyddocaol na'r mater o drefn yr ydych yn apelio'n ei erbyn; ac
- a fyddai'n fwy cyfleus delio gyda'ch pwynt chi yn y treial.

Nid oes angen caniatâd arnoch os yw'r gorchymyn yr apeliwch yn ei erbyn ymysg y canlynol:

- gorchymyn traddodi
- gorchymyn sy'n gwrthod caniatáu habeus corpus;
- gorchymyn llety caeth dan Adran 25 Deddf Plant 1989.

Dim ond yn achos y canlynol y mae angen i chi ofyn am ganiatâd yn y rhybudd hwn:-

- os nad oeddech chi wedi gofyn am ganiatâd i apelio yn y gwrandawriad lle gwnaed y penderfyniad yr ydych yn apelio yn ei erbyn; neu
- os gofynnoch chi am ganiatâd, ond fod hwnnw wedi ei wrthod, a'ch bod yn dymuno i'r llys apelio ailystyried eich cais.

Gall y llys, pan yn rhoi caniatâd i apelio, yn **eithriadol**, gyfarwyddo bod eich apêl yn cael ei chyfeirio i'r Llys Apêl os yw'n ystyried ei bod yn codi pwynt pwysig o egwyddor neu arfer neu fod rheswm pwysig arall i'r Llys Apêl ei chlywed. Lle y mae'r llys yn cyfarwyddo felly, dangosir hyn ar Ffurflen N460 *Rhesymau dros ganiatáu neu wrthod caniatâd i apelio (gan gynnwys cyfeirio i'r Llys Apêl)*, y bydd y llys yn ei hanfon atoch.

Os oes angen rhagor o amser arnoch nag a ganiateir ar gyfer ffeilio eich rhybudd apelydd, rhaid i chi wneud cais yn y rhybudd ei hun. (*Gweler y nodiadau i Adran 10*).

Adran 7

Sail dros apelio

Rhaid i'r apêl fod yn seiliedig ar 'sail' berthnasol (y rhesymau dros apelio). Bydd llys apelio yn caniatáu apêl yn erbyn penderfyniad yn unig os oedd y penderfyniad hwnnw naill ai:-

- yn anghywir; neu
- yn anghyfiawn oherwydd afreoleidd-dra difrifol yn y drefn neu o fath arall pan gynhaliwyd yr achos yn y llys is.

Bydd y llys apelio yn annhebyg o wrth-droi penderfyniad mewn achos lle na fyddai hynny'n gwneud unrhyw wahaniaeth gwirioneddol i'r canlyniad; neu pan fyddai'r apêl yn golygu ailarchwilio'r ymchwiliad ffeithiol yr ymgwymerwyd ag ef gan y llys is.

Nodwch yn gryno y rhesymau, yn eich barn chi, pam fod penderfyniad y barnwr yn anghywir neu'n anghyfiawn. Os yn bosib, rhestrwch eich rhesymau mewn paragraffau byr sydd wedi'u rhifo ar wahân.

Cofiwch **na ddylech** gynnwys unrhyw sail dros apelio sy'n dibynnu ar dystiolaeth newydd, hynny yw, tystiolaeth sydd wedi dod i'r amlwg ers gwneud y gorchymyn. Ni chewch gyflwyno tystiolaeth newydd yn eich apêl heb yn gyntaf sicrhau caniatâd y llys apelio. (*Gweler y nodiadau i Adran 10*).

Adran 8

Dadleuon i gefnogi'r sail

Cewch amlinellu eich dadleuon (y cyfeirir atynt fel 'dadl fframwaith') yn yr adran hon o'r rhybudd, neu mewn dogfen ar wahân sydd i'w rhoi ynghlwm wrth y rhybudd.

Rhaid ffeilio unrhyw ddadl fframwaith ar wahân a'i chyflwyno i'r atebydd gyda'ch rhybudd cyflawn neu, os nad oes modd i chi gwblhau eich dadl fframwaith mewn pryd, dim hwyrach nag 14 diwrnod ar ôl i chi ffeilio eich rhybudd.

Dylai dadleuon fframwaith gynnwys rhestr o bwyntiau wedi eu rhifo y mae'n fwriad gennych eu dadlau yn y gwrandawriad. Dylid datgan pob pwynt mewn ychydig frawddegau yn unig. Cyfeiriwch ym mhob pwynt at unrhyw ddogfennau yr ydych yn eu ffeilio gyda'ch rhybudd apelydd i gefnogi'r ddadl honno (*gweler Adran 11 ar ddogfennau*).

Gwybodaeth ddefnyddiol arall

Ceisiwch ystyried pa wybodaeth arall a allai fod yn ddefnyddiol i'r llys apelio. Er enghraifft, gallai rhestr o'r bobl sy'n gysylltiedig â'r achos fod yn fuddiol, esboniad o'r termau technegol sy'n ymddangos yn y papurau, neu restr o'r digwyddiadau yn nhrefn amser (cronoleg). Os ydych chi'n cyflwyno unrhyw un o'r rhain, dylech wneud hynny ar ddarn o bapur ar wahân a'i roi ynghlwm wrth eich rhybudd, a rhif yr achos neu'r hawliad ac enwau'r partïon wedi'u nodi'n glir arno.

Adran 9

Pa benderfyniad ydych chi am i'r llys ei wneud?

Rhowch amlinelliad o'r gorchymyn neu'r gorchmynion yr ydych chi am i'r llys apelio eu gwneud.

Adran 10

Ceisiadau eraill

Rhaid gwneud unrhyw gais i gael mwy o amser ar gyfer apelio yn y rhybudd ei hun. Dylech nodi eich rheswm dros yr oedi a'r camau a gymerwyd hyd at adeg ffeilio'r rhybudd hwn.

Mae'n bosib eich bod yn dymuno gwneud ceisiadau ychwanegol i'r llys apelio mewn perthynas â'ch apêl. Cewch wneud unrhyw geisiadau eraill naill ai yn y rhybudd ei hun, neu mewn rhybudd o gais ar wahân (Ffurflen N244). Mae'n bosib cael y ffurflen hon o'r llys. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu ffioedd ychwanegol os caiff ei ffeilio yn ddiweddarach na'ch rhybudd apelydd. Dyma'r math o gais y gallech fod eisiau ei wneud:-

- gofyn am ganiatâd i wneud newidiadau i'ch rhybudd apelydd ar ôl iddo gael ei ffeilio yn y llys. Ond sylwch fod yr hawl gennych i newid eich dadl fframwaith (hyd yn oed os yw honno wedi'i nodi yn rhan 8 eich rhybudd) heb wneud cais;
- gofyn i'r llys apelio godi ataliad rhag gweithredu'r gorchymyn y gwneir apêl yn ei erbyn neu ohirio'r achos nes cyhoeddi canlyniad yr apêl. (Nid oes raid i chi wneud hyn os ydych chi eisoes wedi cael ataliad gan y llys is neu os daw eich apêl o'r Tribiwnlys Apêl Mewnfudo.)
- cyflwyno tystiolaeth newydd yn eich apêl neu ofyn am ganiatâd i gyflwyno tystiolaeth lafar yng ngwrandawriad yr apêl. Bydd angen i chi nodi'r rhesymau pam na chyflwynwyd y dystiolaeth newydd gerbron y llys gwreiddiol ac, os gofynnwch am gael rhoi tystiolaeth lafar, pam y credwch fod angen gwneud hynny.

Dogfennau cefnogol

Peidiwch ag oedi cyn ffeilio eich rhybudd apelydd yn y llys apelio. Os methoch â chael unrhyw rai o'r dogfennau a restrir isod o fewn yr amser a ganiateir, llenwch gymaint ag y gellwch o'r rhybudd, a sicrhau y caiff ei gyflwyno mewn pryd. Nodwch y rhesymau pam na fu hi'n bosib i chi gael gwybodaeth neu ddogfennau penodol a nodwch y dyddiad pryd y disgwyliwch iddynt fod ar gael.

Os yw hynny'n bosib, **rhaid** ffeilio'r dogfennau canlynol gyda'ch rhybudd apelydd:-

Os yw eich apêl yn ymwneud â hawliad yn y trac hawliadau bychain, mae'n **rhaid** i chi ffeilio'r dogfennau sydd â seren* isod. **Fe gewch** ffeilio unrhyw ddogfennau eraill a restrir, os dymunwch, **heblaw'r** cofnod o'r rhesymau dros ddyfarniad y llys is. Bydd y llys apelio yn penderfynu a oes angen cofnod o resymau. Cewch wybod os oes angen un.

- *1) copi wedi'i selio o'r gorchymyn yr apeliwch yn ei erbyn;
- *2) unrhyw orchymyn sy'n rhoi neu'n gwrthod caniatâd i apelio, ynghyd â chopi o'r ffurflen sy'n nodi rhesymau'r barnwr dros roi neu wrthod caniatâd (ffurflen N460);
- 3) unrhyw ddatganiadau tyst neu affidafidau sy'n cefnogi unrhyw gais dan Adran 6 neu Adran 10 eich rhybudd neu a nodir mewn rhybudd o gais ar wahân (Ffurflen N244); a
- 4) bwndel o'ch dogfennau cefnogol a ddylai gynnwys copïau o'r canlynol:

- eich rhybudd apelydd ac unrhyw ddatl fframwaith (os ar wahân);
- copi wedi'i selio o'r gorchymyn yr apeliwch yn ei erbyn;
- y dogfennau dan 2 a 3 uchod (os yn briodol);
- unrhyw affidafid neu ddatganiad tyst arall sydd wedi'i ffeilio i gefnogi'r apêl;
- cofnod addas o'r rhesymau dros ddyfarniad y llys is (*gweler y nodyn ar dudalen 10*);
- unrhyw ddatganiadau achos (hynny yw, manylion yr hawliad, amddiffyniad);
- unrhyw drawsgrif perthnasol neu nodyn o dystiolaeth;

- unrhyw rybudd o gais neu ddogfennau rheolaeth achos sy'n berthnasol i'r penderfyniad y gwneir apêl yn ei erbyn;
- os yn briodol, unrhyw ddadl fframwaith y dibynnai'r llys is arni; ac
- affidafidau, datganiadau tyst, crynodebau, adroddiadau gan arbenigwyr ac arddangosion perthnasol
- unrhyw ddogfennau eraill y cafwyd cyfarwyddiadau gan y llys i'w ffeilio yn yr apêl
- mewn ail apêl, y gorchymyn gwreiddiol yr apeliwyd yn ei erbyn, y rhesymau a roddwyd dros wneud y gorchymyn hwnnw a rhybudd yr apelydd sy'n apelio yn erbyn y gorchymyn gwreiddiol (cyntaf)
- os yw'r apêl yn deillio o benderfyniad Tribiwnlys, rhesymau'r Tribiwnlys dros wneud y penderfyniad hwnnw, y penderfyniad gwreiddiol a adolygwyd gan y Tribiwnlys a'r rhesymau dros wneud y penderfyniad gwreiddiol hwnnw

Caiff cofnod o'r dyfarniad fod naill ai

- yn drawsgrïpt cymeradwy o'r dyfarniad lle recordiwyd y gwrandawriad; neu
- yn gopi o'r dyfarniad ysgrifenedig (wedi'i ardystio gyda llofnod y barnwr); neu
- yn nodyn o'r dyfarniad. Os nad oeddech wedi eich cynrychioli'n gyfreithiol yn y llys is ond bod yr atebydd wedi'i gynrychioli, dylai eiriolydd yr atebydd ganiatáu i chi gael eu copi nhw o'r dyfarniad yn ddi-dâl.

Cofiwch, os ydych chi'n ffeilio unrhyw rai o'r dogfennau yn ddiweddarach, rhaid i chi edrych i weld a yw'r wybodaeth a roddwch yn gwneud gwahaniaeth i'r manylion a gyflwynwyd gennych eisoes yn eich rhybudd apelydd. Os yw'n gwneud gwahaniaeth, rhaid i chi wneud cais i'r llys am ganiatâd i ddiwygio'r rhybudd. Gall y llys ddweud wrthych sut i wneud hyn.

Beth nesaf?

Ffeilio eich rhybudd cyflawn a'ch dogfennau

Gwnewch gopi o

- eich rhybudd cyflawn;
- unrhyw ddadl fframwaith ar wahân;
- unrhyw ddogfennau cefnogol (*gweler y nodiadau i Adran 11*); ac
- eich bwndel dogfennau (*mae'r nodiadau i Adran 11 yn dweud wrthyh beth ddylid ei gynnwys yn eich bwndel*).

fel bod gennych gopi i chi eich hun, un copi i'r llys, ac un copi i bob atebydd. Anfonwch y rhybudd a'r copïau o bob dogfen arall i swyddfa'r llys apelio, neu'u danfon yno, gyda'r ffi briodol. Gall y llys ddweud wrthyh faint yw honno. Bydd y llys yn stampio'r rhybudd gyda sêl y llys.

Cyflwyno i'r atebydd

Bydd y llys yn cyflwyno eich rhybudd atebydd, eich dadl fframwaith ac unrhyw ddogfennau eraill i'r atebydd oni bai i chi ddweud wrth y llys eich bod yn dymuno eu cyflwyno eich hunan.

Rhaid cyflwyno'r canlynol i'r atebydd –

- **copi wedi'i selio o'ch rhybudd apelydd** cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol bosib ond dim hwyrach na 7 niwrnod ar ôl ei ffeilio yn y llys
- **unrhyw ddadl fframwaith ar wahân** (*gweler y nodiadau i Adran 8*) ar yr un pryd â'r rhybudd hwn. Os nad oedd bosib i chi gwblhau eich dadl fframwaith mewn pryd, rhaid ei chyflwyno dim hwyrach na 14 diwrnod ar ôl ffeilio eich rhybudd yn y llys
- **eich bwndel dogfennau**
 - os ydych eisoes wedi cael caniatâd i apelio, neu os nad oes angen caniatâd arnoch, rhaid cyflwyno'r bwndel ar yr un pryd â'ch rhybudd; **neu**
 - os ydych wedi gofyn am ganiatâd i apelio yn eich rhybudd, a bod caniatâd wedi'i roi heb wrandawriad, rhaid cyflwyno'r bwndel cyn pen 7 niwrnod o dderbyn y rhybudd fod caniatâd wedi'i roi; **neu**
 - os ydych wedi gofyn am ganiatâd i apelio yn eich rhybudd, a bod hynny i'w ystyried mewn gwrandawriad, rhaid cyflwyno'r bwndel cyn pen 7 niwrnod o dderbyn rhybudd o'r gwrandawriad hwnnw.